Plant yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol Plant yng Nghymru 2008/09

25 Plas Winsor
Caerdydd, CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434
Ffacs: 029 2034 3134

24-26 Stryd Fawr
Caernarfon, LL55 1RH
Ffôn: 01286 677570
Ffacs: 01286 676095

www.childreninwales.org.uk
E-bost: info@childreninwales.org.uk

Siarad gydag Un Llais

Cynnwys

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredydd	3
Cyflwyniad	4
Datblygu a Chefnogi Rhwydweithiau Cryf	5
Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth	7
Cynrychioli ac Ymgynghori	8
Polisi, Datblygu Ymarfer ac Ymchwil	10
Cynyddu Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Phroffesiynol	12
Cefnogi Cynlluniau Newydd a Phresennol	13
Prosiectau a letyir gan Plant yng Nghymru	14
Gweithgareddau a drefnwyd yn ystod 2007/08	16
Llywodraethu	17
Aelodau Plant yng Nghymru	18
Crynodeb Ariannol 2007/08	20

Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw hyrwyddo diddordebau'r grwpiau hyn a gweithredu i ddiwallu eu hanghenion. Drwy'r gweithgaredd hwn yr ydym yn:

- Cyfrannu at wneud gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realaeth yng Nghymru
- Ymladd am wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chwarae teg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau fod llais gan blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn sefydliad aelodaeth ac mae'n darparu amrediad o wasanaethau a gynlluniwyd i hysbysu aelodau am ddatblygiadau newydd a hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad anllywodraethol annibynnol.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion dilynol:

- cefnogi a datblygu rhwydweithiau cryf
- cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- cynrychioli ac ymgynghori gydag aelodau
- datblygu polisi, ymarfer ac ymchwil
- codi ymwybyddiaeth gyhoeddus, wleidyddol a phroffesiynol
- cefnogi cynlluniau newydd a phresennol

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut y cyflawnwyd yr amcanion hyn yn ystod 2008/09.

Datblygu a Chefnogi Rhwydweithiau Cryf

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso ystod eang o rwydweithiau proffesiynol sy'n dod ag aelodau ynghyd i drafod materion polisi ac ymarfer. Maent yn hollbwysig i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall materion sydd o gonsyrn i ystod o sefydliadau ar draws y sector plant. Drwy'r rhwydweithiau hyn medrwn hysbysu aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu safbwyntiau addas ar ddatblygiadau polisi.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth** yn rhoi cyfle i ymarferwyr ym maes eiriolaeth i rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth ar eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae hefyd yn cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ar draws Cymru.

Mae **Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru** yn cyfrannu at ddatblygu eiriolaeth yng Nghymru ac yn ei gefnogi. Mae'n anelu i hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygu rhwng sefydliadau. Mae hefyd yn hwyluso datrys problemau a gwrthdaro posibl mewn diddordeb.

Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth (CHAPPIE) Nod rhwydwaith CHAPPIE yw hyrwyddo atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Ffurfiwyd y rhwydwaith newydd yma ym mis Hydref 2008 i gefnogi ymarferwyr sydd â rôl i'w chwarae mewn gostwng anafiadau.

Datblygwyd **Rhwydwaith Ymgyfraniad Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru** mewn partneriaeth gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol. Mae'n galluogi cynrychiolwyr o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol i wella gwybodaeth, cynnig cefnogaeth a dealltwriaeth i'w gilydd i hybu eu gwaith o fewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Rhwydwaith Plant Gweithwyr Mudol Lansiwyd y rhwydwaith newydd yma ym mis Mehefin 2008. Fe'i sefydlwyd i alluogi pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mudol i ddod ynghyd i drafod problemau a rhannu syniadau.

Cynhaliodd y **Grwpiau Cyfnewid Ymarfer Plant** yng Ngogledd a De Cymru gyfarfodydd rheolaidd ers mis Medi 2007. Mae'r cyfarfodydd yn galluogi cyfranogwyr i gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth. Mae'r grwpiau yn manteisio o e-gylchlythyr i ddosbarthu gwybodaeth rhwng digwyddiadau chwarterol.

Mae'r **Grŵp Ymgynghori Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant** yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion plant dan wyth oed a'u teuluoedd, ac mae'n gweithio gydag ystod eang o sefydliadau o bob sector. Mae'r grŵp yn anelu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o anghenion a hawl pob plentyn ifanc a'u teuluoedd ac i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus a sicrhau newid.

Mae **Fforwm Tadolaeth Cymru** yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n galluogi aelodau i rannu arfer da, ymateb i ymgynghoriadau a hyrwyddo pwysigrwydd tadau ym mywydau plant. Mae Grŵp Polisi Tadolaeth Cymru yn rhwydwaith aml-asiantaeth sy'n cydnabod rôl bwysig tadau ym magwraeth eu plant. Mae'r Grŵp, sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Fathers Direct, yn canolbwyntio ar faterion polisi penodol i osod yr agenda ar gyfer gwaith yng Nghymru.

Mae'r **Fforwm Magu Plant** yn rhwydwaith aml-asiantaeth o sefydliadau rhianta. Mae'r Fforwm yn hyrwyddo rhannu arfer da, lledaenu gwybodaeth berthnasol, hyfforddiant a safonau ansawdd, ac yn cyfathrebu barn rhieni, gofalwyr a phlant i wneuthurwyr polisi yng Nghymru. Mae Grŵp Llywio Fforwm Magu Plant yn cwrdd bob chwarter i gynllunio'r

rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau.

Mae'r **Rhwydwaith Dechrau'n Deg** yn cwrdd bob chwarter, gan ddod ynghyd â chydlynwyr Dechrau'n Deg o'r 22 Awdurdod Lleol.

Mae'r **Fforwm ar Faterion Plant Anabl** yn grŵp aml-siantaeth sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer da, ac yn lobio ar faterion yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc anabl.

Mae'r **Grŵp Polisi Plant Anabl** yn dod ynghyd â'r rhai sydd â brîff polisi ar anabledd i gydweithio i dynnu sylw at faterion a phryderon am wasanaethau ar gyfer plant anabl. Mae gan y grŵp gysylltiad agos gyda'r Fforwm ar Faterion ar gyfer Plant Anabl a'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl i adlewyrchu barn aelodau'r fforwm ac i sicrhau y caiff lleisiau pobl ifanc eu clywed.

Caiff y **Rhwydwaith Canolfannau Plant Integredig** ei hwyluso gan Plant yng Nghymru i roi pwynt cyswllt ar gyfer Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru. Mae'n gweithio i gynhyrchu nodau cyffredin ar gyfer Cymru gyfan a datblygu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso i sicrhau safonau ansawdd.

Mae'r **Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n derbyn Gofal** yn grŵp aml-asiantaeth sy'n anelu i helpu i lywio polisi ar draws Cymru i hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu ymarfer a gwybodaeth.

Mae **Grŵp Cefnogi Sefydliadau Gwirfoddol Cymru** yn cwrdd yn chwarterol ac yn cynnwys unigolion a gyflogir gan sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r **Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta** yn rhwydwaith o unigolion sydd â rôl gydlynu o fewn eu hawdurdod lleol. Sefydlwyd y Rhwydwaith ym mis Medi 2007 ac mae'n galluogi cydlynwyr rhianta i gwrdd (bob dau fis) i rannu materion, datrysiadau ac arfer da.

Mae'r **Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc** yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n agored i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn cynnal pedwar cyfarfod undydd i rannu materion, pryderon a datblygu arfer da. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cwrdd i ddynodi materion i'w cyflwyno'n flynyddol i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ymgyrchoedd

Mae ymgyrch **'Sdim Curo Plant! Cymru** yn lobïo i newid y gyfraith fel bod gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag sydd gan oedolion. Mae hefyd yn cynnal ymgyrch addysg gyhoeddus am pam nad yw'n dderbyniol i guro plant ac yn rhoi gwybodaeth a chyngor ymarferol i rieni am yr amgennau a defnyddio ymagweddau cadarnhaol at fagu plant.

Mae **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru** yn gynghrair o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001 ac mae'n gweithio i sicrhau cynnydd yn nealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a chefnogaeth ar fesurau i roi diwedd arno. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel o lywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Datblygwyd **Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru** gan Plant yng Nghymru, Contact a Family, Anabledd Dysgu Cymru a Mencap. Mae'r ymgyrch, a lansiwyd ym mis Medi 2007, yn anelu i sicrhau fod gan bob plentyn a pherson ifanc anabl yr un cyfleoedd beunyddiol ag sydd gan blant a phobl ifanc.

Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth

Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth i hysbysu ei aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf. Caiff gwybodaeth a anelwyd at wneuthurwyr polisi, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ei ledaenu mewn amrywiaeth o fformatau.

Gwefan

Caiff ein gwefan (www.plantyngnghymru.org.uk) ei diweddaru'n ddyddiol. Mae'n rhoi gwybodaeth am ein gwaith a hefyd am bolisi yn effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwybodaeth am wasanaethau lleol ledled Cymru. Lansiwyd adran i aelodau newydd ym mis Medi 2007 fel y gall aelodau Plant yng Nghymru logio ymlaen i gyrchu amrediad o wahanol ddeunyddiau.

Gwasanaeth E-Friffio Polisi

Caiff ein E-friffiad Polisi ei gylchredeg i aelodau Plant yng Nghymru yn fisol. Mae'n rhoi gwybod iddynt am y datblygiadau polisi diweddaraf sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a swyddi yn y sector plant.

Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Cyhoeddir Cylchgrawn Plant yng Nghymru yn chwarterol ac mae'n cynnwys amrywiaeth o newyddion ac erthyglau. Mae'n crynhoi'r newyddion diweddaraf o'r Cynulliad a'r Senedd, Plant yng Nghymru a'n haelodau yn ogystal â chyfweliadau ac erthyglau manwl. Cafodd y cylchgrawn dwyieithog lliw llawn ei ymestyn yn ystod 2008/9 gyda cholofnau newydd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Draig Ffynci.

Pecyn Chwarterol i Aelodau

Anfonir y cylchgrawn at ein haelodau drwy ein pecyn gohebiaeth chwarterol sydd hefyd yn cynnwys papurau gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau. Yn ystod 2008/9 gwnaethom gynhyrchu nifer o bapurau gwybodaeth ar ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan i hysbysu ein haelodau am yr hyn sy'n digwydd. Yn ychwanegol at y papurau gwybodaeth a'r cylchgrawn, mae'r pecyn gohebiaeth hefyd yn cynnwys taflenni am ddigwyddiadau ar y gweill, rhestr o ymgynghoriadau cyfredol yng Nghymru a chopi o Highlights y Biwrô Plant Cenedlaethol.

Cynrychioli ac Ymgynghori

Un o brif swyddi Plant yng Nghymru yw hysbysu gwneuthurwyr polisi am farn ei aelodau. Gwnawn hyn mewn nifer o ffyrdd. Ymatebwn i ystod eang o ymgynghoriadau sy'n rhoi barn ein haelodau i'r gwneuthurwyr polisi. Mae copïau o'n holl ymatebion i ymgynghoriadau ar gael i aelodau yn yr adran aelodau ar ein gwefan. Rydym hefyd yn rhoi tystiolaeth i wahanol bwyllgorau ac ymchwiliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ymgynghoriadau

Yn ystod 2008/9 cyflwynodd Plant yng Nghymru ymatebion i'r ymgynghoriadau dilynol:

- Ymgynghoriad yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo: Cadw Plant yn Ddiogel Rhag Anaf, Ebrill 2008
- Safonau Iechyd a Digartrefedd, Ebrill 2008
- Cynllun Gweithredu Amgylchedd a Iechyd Plant y Deyrnas Unedig, Mehefin 2008
- Ymgynghoriad ar Gynllun Cydraddoldeb Sengl, Mai 2008
- Ymholiad i Gynllun Gweithredu Rhianta, Mehefin 2008
- Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 – Rheolau Llys, Mehefin 2008
- Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, Mehefin 2008
- Cynigion i newid strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Mehefin 2008
- Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru - Gostwng y gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, Awst 2008
- Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Bathodyn Glas, Awst 2008
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru - Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru - Gostwng y gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru,. Awst 2008
- Adeiladu Cymdeithas i Bob Oedran, Awst 2008
- Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 – Rheoliadau Ariannol ar gyfer Gweithgaredd Cyswllt a Chyfarwyddiadau, Awst 2008
- Gosod Terfynau Cyflymder Lleol, Awst 2008
- Ymgynghoriad ar ddyfodol rheoli tybaco, Medi 2008
- Gweithredu ar Dlodi Plant, Medi 2008
- Lleisiau a Dewisiadau, Hydref 2008
- Lleisiau a Dewisiadau Rhan 2, Hydref 2008
- Diystyru Neb, Hydref 2008
- Teuluoedd Cryfach – Ymgynghoriad ar Gefnogi Plant sy'n Agored i Niwed a Theuluoedd drwy ddull newydd o ddarparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Hydref 2008
- Datblygu Gwasanaeth Nyrs Teulu i Gymru, Tachwedd 2008
- Ymgynghoriad ar y dull a dangosyddion arfaethedig ar gyfer WIMD: Mynegai Plant, Ionawr 2009
- Cynllun Cenedlaethol 20 Mlynedd ar Ddigartrefedd, Chwefror 2009
- Ymgynghoriad Brand Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2009
- Dileu Tlodi Plant: Gwneud iddo Ddigwydd, Mawrth 2009
- Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebau Plant, Mawrth 2009
-

Rhoddodd Plant yng Nghymru hefyd dystiolaeth lafar i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr ymholiadau dilynol:

- Ymchwiliad Tlodi Plant, 24 Ebrill 2008
- Ymchwiliad Cynllun Gweithredu Rhianta, 9 Hydref 2008

Cynrychioli

Caiff Plant yng Nghymru ei gynrychioli ar y pwyllgorau canlynol:

- Anti Bullying Network, Welsh Assembly Government (WAG)
- Asylum Practitioners Network, Wales Strategic Migration Partnership
- Care Co-ordination Network UK Wales Group
- Children's Workforce Network, Care Council for Wales
- Common Assessment Framework Wales Steering Group
- Council for Disabled Children, WAG
- Cymorth and Flying Start Evaluation Steering Group, WAG
- DeNais, WAG
- Disabled Children Matter Wales Task Group, WAG
- Early Childhood Forum, WAG
- Early Support Steering Group, WAG
- Early Years Workforce Network
- Equality and Human Rights Coalition, WCVA
- European Child Safety Alliance
- Family Information Service Network
- Health Social Care and Wellbeing Network, WCVA
- Lifelong Learning UK Community Learning & Development Constituency Panel
- Men Experiencing Domestic Abuse, Montgomeryshire Family Crisis Centre
- NEA North Wales Forum
- NGO Policy officers Group
- North West Wales Spatial Plan Group
- Out of Hours School Learning Code of Practice, ContinYou
- Participation Consortium and related subgroups
- Shared Care Advisory Group
- Statutory Reform Group, WAG
- Stop it Now Steering Group
- Transition External Reference Strategic Group, WAG
- Under 8's regulations and NMS Group, WAG

Polisi, Datblygu Ymarfer ac Ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn ymwneud â hyrwyddo polisi a datblygu ymarfer. Yn ystod 2008/09 fe wnaethom gynnal sbectrwm eang o weithgareddau'n hyrwyddo polisi a datblygu ymarfer mewn amrediad o feysydd, yn cynnwys:

- Cyhoeddi Teuluoedd, nid ardaloedd, sy'n dioddef anfantais cefn gwlad ym mis Ebrill 2008. Roedd yr adroddiad hwn yn ganlyniad ymchwil yn ystyried y problemau sy'n wynebu teuluoedd gwledig a ffyrdd effeithiol o ddarparu gwasanaethau iddynt. Mae'n rhoi sylw i rai o'r materion allweddol sydd yn rhoi teuluoedd yng nghefn gwlad dan anfantais. Mae'r problemau hyn yn cynnwys problemau cael mynediad i drafnidiaeth, diffyg gwasanaethau a chyfleoedd hamdden a diffyg tai fforddiadwy.

- Sefydlu rhwydwaith newydd i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gweithwyr mudol. Sefydlwyd y rhwydwaith newydd yma, a lansiwyd ym mis Mehefin 2008, i alluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mudol i ddod ynghyd i drafod problemau a rhannu syniadau.

- Ymgynghori a datblygu cynllun i ostwng nifer y damweiniau a gaiff plant yng Nghymru. Cyhoeddwyd fersiwn terfynol y cynllun, Gweithio tuag at Gynllun Gweithredu Diogelwch Plant i Gymru ym mis Chwefror 2009.

- Penodi rôl newydd Swyddog Datblygu ar gyfer Diogelwch Plant a sefydlu rhwydwaith newydd o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar faterion diogelwch plant. Nod y Rhwydwaith Cyfnewid Ymarfer a Gwybodaeth Atal Damweiniau Plant yw hyrwyddo atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Ffurfiwyd y rhwydwaith newydd ym mis Hydref 2008 i gefnogi ymarferwyr sydd â rôl i'w chwarae mewn gostwng anafiadau.

- Croesawu'r FforwmByd 2008 gyda'r Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant i Gaerdydd ym mis Medi 2008. Gyda dros 300 o gynrychiolwyr o 30 o wahanol wledydd ar draws y byd yn bresennol, galluogodd y gynhadledd ryngwladol bwysig hon arbenigwyr plant i gyfnewid arfer da ar faterion yn ymwneud ag ymyriad cynnar.

- Lansio Cyhoeddi Tadau mewn Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar: Ymarfer Cadarnhaol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol. Lansiwyd y llyfryn gan Plant yng Nghymru ym mis Hydref 2008 ac mae'n rhoi cyngor i helpu gwasanaethau blynyddoedd cynnar i gynnwys tadau yn eu gwasanaethau.

- Parhad prosiect peilot Life Routes a ariannwyd gan Nokia Make a Connection. Mae Life Routes yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed i'w helpu i ddatblygu sgiliau bywyd y medrent fod wedi eu colli oherwydd yr heriau sydd wedi eu hwynebu. Dechreuodd Plant yng Nghymru beilota prosiectau Life Routes yng Nghymru ym mis Mawrth 2008, a bydd y peilot yn rhedeg hyd fis Mehefin 2009.

- Gweithio i gynhyrchu cynllun Sicrwydd Ansawdd unedig ar gyfer plant 0-5 oed mewn gofal plant neu rai 3-5 oed yn y Cyfnod Sylfaen mewn gosodiadau nas cynhelir a ariennir. Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol a'i beilota mewn amrywiaeth o osodiadau ar draws deg ardal Dechrau'n Deg ym mis Chwefror 2009.

- Cynrychioli sector gwirfoddol plant ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys mynd â barn y rhai sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol plant ac i gyfarfodydd a drefnir gyda gweinidogion unigol.

- Parhaodd y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant i lobio dros bolisïau ar bob lefel o lywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Roedd cost addysg yn un ffocws yn ystod 2008/09. Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Hydref 2008 yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnal astudiaeth ar ddichonolrwydd cyflwyno gwasanaeth prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol ledled Cymru.

- Hyrwyddo ystod o gynlluniau gwrth-fwlio yn cynnwys Gwobr Ysgolion Parchu Hawliau UNICEF, ymagwedd ysgol gyfan at hawliau plant. Hyrwyddwyd y fenter yn y Gynhadledd Chwyldro Tawel a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2009. Cafodd ei derbyn gyda'r fath frwdfrydedd fel y cynigiwyd rhwydwaith newydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r cynllun mewn ysgolion yng Nghymru.

- Gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar ymgyrch ar blant mewn dalfa. Cyhoeddodd y ddau sefydliad bapur yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd camau i sicrhau mai dim ond os oedd pob llwybr cyfreithiol arall wedi eu hymchwilio y dylid rhoi plant yn y ddalfa ac y dylai lles gorau'r plentyn gael ei roi bob amser o flaen rheoli mewnfudo.

- Gwaith ar brosiect i ddynodi materion penodol i ofalwyr ifanc wrth iddynt symud o brosiectau gofalwyr ifanc i geisio cefnogaeth gan wasanaethau oedolion. Hon oedd blwyddyn gyntaf prosiect tair blynedd, ac roedd y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2008/09 yn cynnwys adolygu llenyddiaeth, casglu gwybodaeth a chynhyrchu adroddiad ysgrifenedig.

Codi Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Phroffesiynol

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'r problemau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a ffyrdd y medrir gwella eu bywydau. Gwnawn hyn mewn nifer o ddulliau.

Y Cyfryngau a Chyflwyniadau

Drwy'r cyfryngau rydym wedi medru rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ein hunain a'r pryderon sydd gennym am faterion yn effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2008/09 gwnaethom anfon 23 o ddatganiadau i'r wasg am ein digwyddiadau a chyhoeddiadau, a materion eraill. Rhoddodd staff Plant yng Nghymru dros 50 o gyfweliadau cyfryngau ar y teledu a'r radio, lleol a chenedlaethol ac i amrediad o allfannau cyfryngau print. Rydym hefyd wedi rhoi amrediad o gyflwyniadau i grwpiau llai yn ogystal â chynadleddau mwy am ein gwaith ac agweddau penodol o gonsyrn i amrywiaeth o grwpiau yn lleol ac yn rhyngwladol.

Bu gennym ran weithgar yn nhymor What are we doing to our children? y BBC a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2009. Fe wnaethom roi cyngor i'r BBC am faterion o gonsyrn a galluogi'r BBC i chwarae fideos am y tymor ar wefan Plant yng Nghymru.

Cynhadleddau

Mae ein cynadleddau a digwyddiadau yn rhoi fforwm i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2008/09 cynhaliwyd cynadleddau ar effaith anabledd yn y blynyddoedd cynnar, yr wybodaeth a roddwyd i deuluoedd, bwlio a rhoi polisi ar waith. Fe wnaethom hefyd groesawu dwy gynhadledd ryngwladol, FforwmByd 2008 IFCW a alluogodd gynrychiolwyr o bob rhan o'r byd i gyfnewid syniadau ar ymyriad cynnar a Seminar Cyfnewid Aelodau Eurochild ar gyfranogiad plant ac ieuenctid.

Hyfforddiant

Rydym hefyd yn trefnu amrediad o ddigwyddiadau hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth broffesiynol am faterion o gonsyrn. Yn 2008/09 roedd ein rhaglen yn cynnwys hyfforddiant ar hyrwyddo defnydd cadarnhaol a diogel o'r rhyngrwyd, rhieni mewn gwrthdaro, byw gyda rhai yn eu harddegau, gweithio gyda thadau, plant ar ben eu hunain yn ceisio lloches, dulliau gwerthuso, creadigrwydd yn y gweithle a gwaith grŵp ac amrywiaeth o hyfforddiant ar faterion iechyd meddwl a hwyluswyd gan YoungMinds.

Cefnogi Cynlluniau Newydd a Phresennol

Un o amcanion Plant yng Nghymru yw cefnogi cynlluniau newydd neu bresennol yng Nghymru sydd angen help i'w cynnal neu eu gweithredu. Mae'r enghreifftiau dilynol yn dangos rhai o'r ffyrdd y gwnaethom hyn yn ystod 2008/09.

Rhaglen Cefnogi Cynnar

Cefnogi Cynnar
Early Support

Mae Plant yng Nghymru yn cydlynu gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Cynnar yng Nghymru. Datblygwyd y Rhaglen yn Lloegr i wella ansawdd, cysondeb a chydlynu gwasanaethau ar gyfer plant anabl dan bump oed a'u teuluoedd. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau y caiff yr holl wasanaethau a ddarperir ar gyfer teuluoedd plant anabl eu cydlynu'n dda a'u bod yn ymateb i'w hanghenion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr wedi cytuno i weithredu Cefnogi Cynnar ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Rôl Cefnogi Cynnar yw codi disgwyliadau am y ffordd y mae asiantaethau a gwasanaethau yn cydweithio i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd ac annog newid, yn neilltuol drwy hyrwyddo datblygiad gweithwyr allweddol. Mae hefyd yn trin anghenion hyfforddiant ac yn cefnogi datblygu gweithlu amlasiantaeth yn ogystal â darparu adnoddau ymarferol sy'n gyrru a chefnogi'r broses newid ar lefel leol. Mae Cefnogi Cynnar yn gweithio fel y medrir codi lles emosiynol a chyflawniad plant ifanc anabl. Disgwylir i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd Cymru fabwysiadu'r pecyn llawn o ddulliau, deunyddiau a hyfforddiant Cyefnogi Cynnar. Mae Plant yng Nghymru yn arwain y bartneriaeth i ddatblygu gwybodaeth a hyfforddiant Cefnogi Cynnar yng Nghymru. Darparwyd cyllid am dair blynedd o Ionawr 2009.

Polisi Amddiffyn Plant a Chyngor i Sefydliadau Cymunedol Ffoaduriaid

Bu Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar brosiect i godi ymwybyddiaeth o amddiffyn plant ymysg grwpiau cymunedol ffoaduriaid. Cyflogwyd swyddog datblygu ers mis Ebrill 2008 i ddatblygu a gwella ymarfer amddiffyn plant o fewn Cyngor Ffoaduriaid Cymru a grwpiau cymunedol ffoaduriaid o fewn Cymru. Mae'r gwaith wedi cynnwys cynnal gwerthusiad a hyfforddiant ymysg staff rheng flaen ffoaduriaid yng Nghymru. Mae'r gwaith yn parhau a bydd yn cynnwys ystyried polisïau ar gyfer Cyngor Ffoaduriaid Cymru i gynorthwyo wrth amddiffyn pob ceisiwr lloches a ffoadur agored i niwed sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Swyddog Datblygu yn rhan o'r Uned Plant newydd o fewn Cyngor Ffoaduriaid Cymru, sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o faterion ar gyfer plant o fewn y system mewnfudo. Bu'r Swyddog Datblygu yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ffoaduriaid. Mae hyn wedi cynnwys mynychu grŵp rhieni yn Abertawe, gweithio gyda'r gymuned Congolaidd yng Nghymru a gweithio mewn partneriaeth gydag Alltudion ar Waith a Swyddog Cynhwysiant Ffoaduriaid Cymru i roi seminarau i gynrychiolwyr o grwpiau cymunedol ffoaduriaid. Mae'r gwaith yn parhau ac mae cynlluniau i weithio yn y dyfodol gyda'r gymuned Swdaneg yng Nghymru. Ariannir y Prosiect am ddwy flynedd gan Sefydliad Paul Hamlyn.

Prosiectau a Letyir gan Plant yng Nghymru

Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl
www.ydpn.co.uk

Mae Plant yng Nghymru yn lletya'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl sy'n anelu i roi strwythur lle medrir cefnogi pobl ifanc anabl i chwarae rhan lawn a gweithgar yn y prosesau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r Rhwydwaith yn anelu i roi cyfleoedd i bobl ifanc anabl i:

- Gwrdd a chael hwyl
- Deall eu hawliau
- Codi materion o gonsyrn yn eu bywydau bob dydd
- Bod â llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a'u cyfoedion
- Meithrin eu gallu, drwy gynyddu eu hyder a'u hunanbarch i ddod yn gyfranogwyr effeithlon yn y broses benderfynu.

Mae gweithgareddau'r rhwydwaith wedi cynnwys digwyddiadau preswyl a dyddiau ffocws. Mae wedi canolbwyntio ar ddarparu pobl ifanc i gymryd rôl fwy egniol wrth wthio eu hagenda ymlaen, ac maent wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac adolygiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae pobl ifanc wedi dilyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth anabledd a chyfranogiad. Bydd hyn yn parhau dros y flwyddyn nesaf i'w galluogi i ddod yn hyfforddwyr eu hunain. Mae'r bobl ifanc hefyd wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Maent wedi mynychu digwyddiad yn y Senedd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a chwrdd â Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru
www.participationworkerswales.org.uk

Mae Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru yn wasanaeth rhad ac am ddim ar y we ar gyfer gweithwyr a sefydliadau sy'n hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc, neu sydd â diddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol.

Mae'r rhwydwaith wedi parhau i gynnal a diweddaru'r wefan gyda gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr, ac mae'n cynnig y gwasanaethau dilynol:

- Ardal gyhoeddus sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth am gyfranogiad
- Ardal breifat yn cynnwys manylion am aelodau'r rhwydwaith a'u gwaith, sy'n galluogi gweithwyr i rannu syniadau am gyfranogiad a chefnogi ei gilydd
- E-gylchlythyrau deufisol sy'n rhoi sylw i ddarnau o arfer da mewn cyfranogiad, ymchwil a digwyddiadau ar y gweill.

Caiff y Rhwydwaith ei lletya gan Plant yng Nghymru ar ran Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, corff strategol amlasiantaeth yn meithrin gallu ar gyfer datblygu cyfranogiad yng Nghymru. Caiff y Rhwydwaith ei hariannu gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd fel rhan o gynllun 'Cyrraedd y Nod'.

Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc
http://www.link-wales.org.uk/

Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc Cymru
Children and Young People's Research Network

Nod Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc yw:

- annog a datblygu ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru
- rhoi dolen i ymarferwyr, gwneuthurwyr polisi, academyddion a defnyddwyr gwasanaeth
- gosod yr agenda ar gyfer blaenoriaethau strategol tymor canol a thymor hir
- hyrwyddo Cymru yng nghymunedau ymchwil y Deyrnas Unedig, Ewrop a byd-eang

Yn ystod 2008/2009 parhaodd y Rhwydwaith i ehangu ei aelodaeth a pharhaodd i ddatblygu a chefnogi ymchwil ansawdd uchel ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiodd y Rhwydwaith ar:

Rhwydwaith Ymchwil Meddyginiaeth ar gyfer Plant. Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Plant wedi parhau i sefydlu cysylltiadau agosach gyda'u cymheiriaid yn Lloegr. Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn mynychu pwyllgor mabwysiadu astudiaethau a chyfarfodydd paediatreg arbenigol, gan roi cyswllt hanfodol rhwng Lloegr a Chymru. Caiff nifer o astudiaethau mawr o Gymru eu rhestru ar Bortffolio Astudiaethau UKCRN ac mae'r Rhwydwaith yn anelu i gynyddu'r gynrychiolaeth hon drwy ddatblygu astudiaethau newydd yng Nghymru a chydweithio gyda phartneriaid yn Lloegr.

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc mewn Ymchwil. Cynhaliodd y Gweithgor Cyfranogiad mewn Ymchwil ddwy seminar ardderchog yn canolbwyntio ar ymchwil gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed a defnyddio dulliau creadigol i ymrwymo plant a phobl ifanc mewn ymchwil.

Chwarae. Parhaoddy Gymrawd Chwarae yn Abertawe i ddatblygu rhwydwaith ymchwil ar draws Cymru a chymerodd ran mewn nifer o gynigion ansawdd uchel am thema chwarae.

Gweithgareddau a drefnwyd yn ystod 2008/09

Mae Plant yng Nghymru yn trefnu amrediad o gynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau. Roedd y gweithgareddau yn 2008/09 yn cynnwys:

Ebrill
- Gweithdy Cymorth Teulu, Wrecsam
- Digwyddiad Ymgynghori Canllawiau Dechrau'n Deg ar gyfer Gweithio gyda Thadau
- Cydweithio o'r Cychwyn: Cynhadledd yn edrych ar effaith anabledd yn y blynyddoedd cynnar, Caerdydd
- Seminar Gwybodaeth Blynyddoedd Cynnar, Caerdydd
- Hyrwyddo Defnydd Cadarnhaol a Diogel o'r Rhyngrwyd, Hyfforddiant, Sir y Fflint
- Cynnwys Plant a Phobl Ifanc mewn Ymchwil: Y Dadleuon Moesegol, Wrecsam

Mai
- Tuag at Gynllun Gweithredu Diogelwch Plant i Gymru, Digwyddiadau Ymgynghori Llandudno
- Mae Mam a Dad yn cwmpo mas o hyd, Hyfforddiant, Caerdydd

Mehefin
- Deddf Plant a Mabwysiadu 2006, Rheolau Llys, Aelodau, Diwygiadau i Reolau Trafodion Teulu 1991, Digwyddiad Ymgynghori, Caerdydd

Gorffennaf
- Cyflwyniad i Weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn Ceisio Lloches, Hyfforddiant, Caerdydd
- Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Cyflwyniad, Hyfforddiant a hwyluswyd gan Young Minds, Llandudno a Chaerdydd.

Awst
- Stondin Mudiadau Plant yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Darlith Plant yng Nghymru, 'Hawliau a Realaeth' gan Helen Mary Jones AC, Caerdydd

Medi
- Gweithredu ar Dlodi Plant, y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Cymorth a Dechrau'n Deg, Digwyddiadau Ymgynghori gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llandrindod
- Teuluoedd Cryfach yn Cefnogi Plant Agored i Niwed a Theuluoedd drwy Agwedd Newydd at Wasanaethau Cymorth Teulu Integredig, Caerdydd
- FforwmByd IFCW 2008, Caerdydd

Hydref
- Seminar Cyfnewid Aelodau Eurochild: Cyfranogiad Plant a |euenctid, Caerdydd, Cynnwys Plant a Phobl Ifanc mewn Ymchwil: 'Ymchwilio bywydau plant a phobl ifanc agored i niwed', Caerdydd
- Dulliau Gwerthuso, Hyfforddiant, Caerdydd
- Cyflwyniad i Weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn Ceisio Lloches, Hyfforddiant, Caerfyrddin
- Byw gyda Phobl Ifanc yn eu Harddegau, Hyfforddiant, Caerdydd
- 'Ei Gael yn Iawn i Deuluoedd?' Cynhadledd i ddathlu Wythnos Rhieni 2008, Llanfair ym Muallt
- Mae Mam a Dad yn cwmpo mas o hyd, Hyfforddiant, Abertawe

Tachwedd
- Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, hyfforddiant a hwyluswyd gan Young Minds, Caerdydd a Gogledd Cymru
- Defnyddio Creadigrwydd yn y Gweithle, hyfforddiant, Caerdydd
- Diwrnod Ymholi Gweithredu Dechrau'n Deg gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llandrindod
- Cyflwyniad i Weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn Ceisio Lloches, Hyfforddiant, Llandudno

Rhagfyr
- Agendâu Trawsbynciol: Rhoi Polisi ar Waith yng Nghymru, Cynhadledd Flynyddol a CCB Plant yng Nghymru, Caerdydd
- Ymchwilio Iechyd Meddwl Babanod a Blynyddoedd Cynnar: Hyfforddiant a hwyluswyd gan Young Minds, Caerdydd

Ionawr
- Trais yn y Cartref yn Difetha Bywydau, Seminar, Wrecsam
- Amddiffyn Plant a Lles Plant ar gyfer Grwpiau Cymunedol Ffoaduriaid

Chwefror
- Ymchwilio Iechyd Meddwl Babanod a Blynyddoedd Cynnar, Hyfforddiant a hwyluswyd gan Young Minds, Llandudno

Mawrth
- Dulliau Gwerthuso, Hyfforddiant, Bangor
- Hyfforddiant Hunan-anaf, hwyluswyd gan Young Minds, Caerdydd
- Digwyddiad undydd Gennym Ni, Ar ein Cyfer Ni, Amdanom Ni, a drefnwyd gan Brifysgol Caerdydd, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru am ymchwil gyda phlant a phobl ifanc, Caerdydd
- Chwyldro Tawel, Camau Cadarnhaol i Feithrin Gwerthoedd a Rennir a Gostwng Bwlio, Cynhadledd, Caerdydd
- Digwyddiad Gwybodaeth Cymorth Cynnar, Llandrindod
- Hyfforddiant Gweithio gyda Thadau, Wrecsam
- Hyfforddiant Cyflwyniad i Waith Grŵp Caerdydd

Trefn Lywodraethu

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Y mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys hyd at 12 o aelodau, yn ymdrin â chyllid a threfn lywodraethu'r sefydliad. Y mae aelodau'n cael eu hethol yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac y maent yn gwasanaethu am uchafswm o dair blynedd. Y mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am 2007/08 yn cynnwys:

- Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)
- Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin (Is-gadeirydd)
- Tim Brown (Trysorydd) hyd fis Rhagfyr 2008
- Stuart Chapman (Trysorydd), o fis Rhagfyr 2008
- Rita Jones, Mudiad Ysgolion Meithrin, hyd fis Rhagfyr 2008
- Deborah Jones, Voices from Care (Cymru)
- Yr Athro Trisha Maynard, Canolfan Ymchwil Plant, Prifysgol Abertawe
- Yr Athro Gareth Morgan, Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru
- Athro Emeritws Jo Sibert OBE, hyd fis Rhagfyr 2008
- Janet Williams, Gwasanaeth Amddiffyn Plant, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, hyd fis Rhagfyr 2008
- Roger Bishop, Tros Gynnal, o fis Rhagfyr 2008
- Diane Daniel, o fis Rhagfyr 2008
- Yvonne Rodgers, Barnado's Cymru, o fis Rhagfyr 2008
- Greta Thomas, NSPCC Cymru, o fis Rhagfyr 2008
- John Valentine Williams, o fis Rhagfyr 2008

Cyngor Polisi

Y mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n gwneud argymhellion ynglŷn â materion polisi yn ymwneud â phlant a phobl ifanc gerbron Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ond nid oes ganddo swyddogaeth lywodraethol. Y mae'r Cyngor Polisi'n cynnwys 10 o aelodau sydd wedi'u rhagbenodi sy'n hanu o gyrff allweddol, gyda 21 yn rhagor o leoedd yn cael eu hethol o'r aelodaeth. Y mae'r 12 o Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru hefyd yn awtomatig yn dod yn aelodau. Y mae aelodau'r Cyngor Polisi am 2008/90 yn cynnwys:

- Pierre Bernhard-Grout, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ADEW)
- Darren Bird (cynrychiolir gan Rachel Price), Draig Ffynci
- Roger Bishop, Tros Gynnal, i fis Rhagfyr 2008, yna aelod awtomatig fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Pippa Boss, Shared Care Cymru
- Sioned Bowen, hyd fis Rhagfyr 2008
- Soracha Cashman, RNID Cymru, o fis Rhagfyr 2008
- Diane Daniel, Cyngor Dinas Casnewydd, hyd fis Rhagfyr 2008, yna aelod awtomatig fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Pat Dunmore, Catch-22, o fis Rhagfyr 2008
- Anne Eccles, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (cynrychiolir gan Dilys Calder o fis Rhagfyr 2008)
- Andrew Edwards, Heddlu Dyfed Powys
- Felicity Fletcher, Relate Cymru, o fis Rhagfyr 2008
- Beverlea Frowen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ieuan Goronwy Jones, Cyngor Sir Caerfyrddin, hyd fis Rhagfyr 2008
- Mike Greenaway, Chwarae Cymru
- Yr Athro John Gregory, Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru
- Derek Griffin (cynrychiolir gan Naureen Akhtar), CAFCASS Cymru
- Sara Hagen-Vaughan, Home Start Cymru, hyd fis Rhagfyr 2008
- Wendy Hawkins, Clybiau Plant Cymru
- Jan Leightley, NCH Cymru
- Mike Lewis, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, hyd fis Rhagfyr 2008
- Chris Mann, Bwrdd Iechyd Lleol Powys
- Maria Michael, Sir a Dinas Caerdydd, hyd fis Rhagfyr 2008
- Richard Parry, Dinas a Sir Abertawe, hyd fis Rhagfyr 2008
- Yr Athro Phil Reed, Prifysgol Abertawe, hyd fis Rhagfyr 2008
- Mark Roszkowski, Dinas a Sir Abertawe, hyd fis Rhagfyr 2008
- Jayne Saunders, Hosbis Plant Tŷ Hafan, o fis Rhagfyr 2008
- Mathew Taylor, Voices from Care (Cymru), hyd fis Rhagfyr 2008
- Greta Thomas, NSPCC Cymru, hyd fis Rhagfyr 2008, yna aelod awtomatig fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Leighton Rees, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Christine Walby OBE
- Elspeth Webb, Ysbyty Athrofaol Cymru

Aelodau Plant yng Nghymru

Yn ystod 2008/09, yr oedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 251 o aelodau, yn cynnwys 177 aelodau sefydliadol a 47 o aelodau unigol. Ymunodd 27 o unigolion ychwanegol, sy'n gweithio i sefydliadau sydd eisoes yn aelodau, fel aelodau atodol hefyd. Yr oedd ein haelodau yn 2008/09 yn cynnwys:

Aelodaeth Sefydliadol

ABCD
Achub y Plant
Action for Children
Adnodd Pen-y-bont a'r Cylch ar gyfer Plant gydag Anableddau
AFASIC Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
Barnardo's Cymru
BAWSO
BBC Plant mewn Angen
Bobath Cymru
Bryn Melyn Care Cyf
Bwrdd Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol
Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd
Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd
Bwrdd Lleol Diogelu Plant Rhondda Cynon Taf
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CAFCASS Cymru
Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn
Canolfan Blynyddoedd Cynnar Ynyscynon
Canolfan Byd Gwaith
Canolfan Gofal Dydd Tir Na Nog Prifysgol Bangor
Canolfan Plant Forest
Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd
Canolfan Plant Integredig Cwm Golau
Canolfan Plant Llwynhendy
Canolfan Plant Rhydyfelin
Canolfan Plant y Frenni
CAPIC ('Collaboration for Accident Prevention Injury Control')
Care Co-ordination Network UK (CCNUK)
Cartref Bontnewydd
Catch 22
Chwarae Cymru
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Coleg Brenhinol Paediatreg a Iechyd Plant
Coleg Abertawe
Coleg y Drindod
Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Penybont
Coleg Sir Benfro
Coleg Ystrad Mynach
ContinYou Cymru
Cronfa Teulu
Cydffederasiwn Cenedlaethol
Cymdeihasau Rhieni ac Athrawon
Cymdeithas Cartrefi Plant Annibynnol
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NOMA)
Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Genedlaethol Gweithwyr Cymdeithasol
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin (CYCA)
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Tai Clwyd
Cymdeithas Tai Hafan
Cymorth i Fenywod Bro Morgannwg
Cymorth i Fenywod Caerdydd
Cymorth i Fenywod Cwm Rhymni
Cymorth i Fenywod Cymru
Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw
Cymorth i Fenywod Llanelli
Cymorth i Fenywod Wrecsam
Cymorth i Fenywod Y Rhyl a'r Cylch
Cymru Ddiogelach Cyf
Cyswllt Teulu Cymru
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyswllt – Cymdeithas Plant Byddar
Darganfod Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe
Dechrau'n Deg Castell Nedd Port Talbot
Dechrau'n Deg Conwy
Dechrau'n Deg Cyngor Caerdydd
DEWIS Cyf
Dinas a Sir Abertawe
Draig Ffynci/Funky Dragon
Dyfodol Powys Futures
Dynamix Cyf
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Face2Face
Fairbridge Abertawe

Families Need Fathers
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Fforwm Blynyddol Parc Caia
GISDA
Gofal i'r Teulu
Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion
Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS)
Gwasanaethau Cyfiawnder G4S
Gwasanaeth Gofalwyr Powys
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru
Hafal
Home Start
Hosbis Plant T□ Hafan
Interlink
Llamau Cyf
Mantell Gwynedd
Meithrinfa Ddydd Pili Pala
MENCAP Cymru
Missing Wales
Mudiad Ysgolion Meithrin
NSPCC
Parenting UK
Pathway Care
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Torfaen
Plant Dewi
Practis Cyfraith Teulu Wendy Hopkins
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Bangor
Prifysgol Cymru Caerdydd
Prospects for Young People
Relate Cymru
Rhwydwaith Maethu Cymru
Rhwydwaith Rhannu Gofal Cymru
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
Right From The Start (Caerffili)
RNID Cymru
Scope Cymru
Sefydliad Beth Johnson
Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Addysgol (NFER)
Sefydliad y Teulu a Rhianta
SNAP Cymru
Spark Blaenymaes Cyf
St John Cymru Wales
TACT Cymru
Tai Sylfaen/Foundation Housing Cyf
Touch Trust Cyf
Tros Gynnal
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
UWIC
Voices from Care (Cymru)
YMCA Cymru
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
Ysgol Babanod St Andrew
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Caeau'r Drindod
Ysgol Bro Gwaun
Ysgol Gyfun Rhymni
Ysgol Gynradd Our Lady & St Michael's
Ysgol Maelor
Ysgol St Cyres
Ysgol Syr Thomas Jones

Aelodau Unigol

Ms Ann Bell
Ms Lydia Bella
Ms Jan Berry
Ms Sheila Booth
Ms Sioned Bowen
Mr Tim Brown
Ms Monica Carroll
Mr Stuart Chapman
Ms Anne Collis
Mr Elvet Crowe
Ms Marina Edmunds
Ms Ley Emanuel
Ms Felicity Fletcher
Ms Pauline Galluccio
Ms Jennifer Gower-Jones
Mr Robin Griffiths
Ms Margaret Hanney MBE
Ms Suzi Inderjeet
Ms Eiri Jones
Ms Kerry Kane
Mr Raymond Kingdon
Ms Pauline Lawrence
Mr Kerry Marlow
Ms Mary Anne Marsden
Ms Josette Ormrod
Ms Jan Owen
Ms Ruth Parry
Mr Nicholas Pow
Mr Martin Price
Mr Merfyn Roberts
Dr Bob Sanders
Ms Ann Sherlock
Dr Mike Shooter
Prof Jo Sibert
Dr June Statham
Mr John Llewellyn Thomas
Prof Nigel Thomas
Ms Sue Thomas
Ms Charlotte Vost
Cllr Christine Walby OBE
Ms Jeanette Waghorn
Ms Amy Weir
Ms Ann Williams
Ms Jane Williams
Mr John Valentine Williams
Ms Judith Williams
Dr Barbara Wilson

Crynodeb Ariannol

ADNODDAU A DDAETH I MEWN	
Grant Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	646,352
Incwm Buddsoddi	23,017
Grantiau a Rhoddion	368,863
Tanysgrifiadau Aelodau	40,764
Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cyllidau	301,650
Cyfanswm yr Adnoddau a Ddaeth i Mewn	**1,380,646**

ADNODDAU A WARIWYD	
Cost cynhyrchu cyllidau	
Gwasanaethau Cymorth Aelodau	117,969
Cost gweithgareddau elusennol	
Gwariant elusennol uniongyrchol	1,118,833
Costau Trefn Lywodraethu	12,856
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	**1,249,658**
Incwm Net am y Flwyddyn	130,988

DADANSODDIAD O WARIANT ELUSENNOL YN ÔL AMCANION	
Datblygu a chymorth rhwydweithiau cryfion	164,683
Cynrychioli ac Ymgynghori	203,137
Cynhyrchu, hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth	334,955
Datblygu polisi, ymarfer ac ymchwil	243,298
Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol	172,760
Gwasanaethau Cymorth Aelodau	117,969
Trefn Lywodraethu	12,856
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	**1,249,658**

INCWM



GWARIANT